Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae - Adnodd 6

## Bod yn hyrwyddwr chwarae

Mae'r awgrymiadau hyn yn fan cychwyn ar gyfer ehangu eich sgiliau arwain ym maes pwysig eiriolaeth chwarae.

### Paratoi

Mae eiriolaeth effeithiol yn gofyn am ychydig o waith paratoi. Mae gloywi eich gwybodaeth am bwysigrwydd chwarae yn ffordd dda o baratoi eich hun. Bydd adolygu'r materion yn eich helpu i benderfynu sut y byddwch yn dosbarthu gwybodaeth i eraill.

Mae Papur Cefndir yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am bwysigrwydd chwarae.

### Defnyddio profiadau ac atgofion

Yn aml, gall annog eraill i gofio eu profiadau chwarae eu hunain fod yn atgofus iawn a'u helpu i ddeall pwysigrwydd cefnogi chwarae. Mae defnyddio straeon gan blant ac atgofion gan eraill i ategu ffeithiau ac ymchwil yn ddull eirioli effeithiol.

Mae Chwarae Cymru wedi cyhoeddi ffilm o'r enw 'Dyma pam mae chwarae mor bwysig' lle mae plant ac oedolion yn rhannu profiadau ac atgofion am chwarae.
www.chwarae.cymru/chwarae/ffilm/

### Mapio'r cysylltiadau

Helpu eraill mewn maes polisi penodol i ddeall sut mae eu penderfyniadau yn effeithio ar chwarae plant.

- *Pwy fydd yn cael y budd pennaf o'r polisi, proses neu wasanaeth hwn?*
- *Pa wybodaeth a/neu ddata (tystiolaeth) a gafwyd er mwyn asesu effaith y polisi, proses neu wasanaeth hwn?*
- *A nodwyd effaith negyddol mewn unrhyw grŵp?*

Ewch i lyfrgell adnoddau Chwarae Cymru i weld y papurau briffio amrywiol*Ffocws ar chwarae.*

## Myfyrio ar eich arferion eirioli presennol

Dechreuwch drwy feddwl am y ffyrdd y gallech eirioli dros chwarae ar hyn o bryd, fel cyfarfodydd, sesiynau briffio polisi, datblygu mentrau newydd. Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd i fod yn eiriolwr ac yn arweinydd yn y sefyllfaoedd hyn? Beth arall allech chi ei wneud i hyrwyddo chwarae?